Club Cosy | Club Clyd

# Pecyn Cymorth

Sut i sefydlu rhwydwaith o syndicetiau tanwydd a rhedeg clybiau prynu olew



Ymlaen Ceredigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


## Sut i greu rhwydwaith o syndicetiau tanwydd

Arweiniad cam wrth gam ..... 2

## Sefydlu syndicet olew

Canllawiau i gydlynwyr ..... 10

## Cynghorion a chip tu ôl i'r llen

Arbedion ..... 13

Gweithio â thlodi tanwydd a chyllid ..... 16

Defnyddio dealltwriaeth o ymddygiad i gynnwys effeithlonrwydd ynni ..... 18

Cydweithio â chyflenwyr olew ..... 21

## Atodiad 1

Cyfrifon cyllidebu tanwydd ..... 23

## Atodiad 2

Enghraifft o daenlen ar gyfer archebu drwy syndicet ..... 24

## Atodiad 3

Pecynnau cymorth eraill ..... 25



**Mae'r pecyn cymorth hwn ar gael fel e-lyfr ar www.ceredigion.gov.uk/fuelclubs www.ceredigion.gov.uk/clwbtanwydd. Cyhoeddwyd gan Ymlaen Ceredigion ar ran Cyngor Sir Ceredigion, Tachwedd 2015.**




# Cyflwyniad



Fel perchennog tŷ sy'n prynu olew gwresogi'n rheolaidd, dw i wedi gweld manteision bod yn aelod o syndicet olew (neu glwb tanwydd) dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn fy swydd yn rheoli'r gwasanaeth llesiant cymunedol, sy'n cynorthwyo pobl i fyw mewn cartrefi diogel a chynnes, dw i'n ymwybodol iawn o'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu dim ond wrth geisio talu i wresogi eu cartrefi'n iawn.

Mae hyn yn arbennig o wir yng Ngheredigion lle mae gennym gynifer o bobl yn byw mewn cartrefi sy'n dibynnu ar danwydd solet neu olew i'w gwresogi. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae prisiau olew wedi bod yn uwch nag erioed gan arwain at breswylwyr yn gorfod gwario cyfran anghymesur o'u hincwm ar wresogi eu cartrefi. Yn wir, mae arolygon sydd wedi'u cynnal ar draws Cymru wedi dangos bod tlodi tanwydd ddwywaith yn fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig nag ardaloedd trefol gyda 42 y cant o aelwydydd cefn gwlad mewn tlodi tanwydd o'u cymharu â 22 y cant o aelwydydd trefol. Mae'r rhesymau'n amrywio ac yn gymhleth, ond y prif reswm yw'r ffaith nad yw nwy o'r prif gyflenwad ar gael mewn llawer o ardaloedd gwledig, gan olygu bod aelwydydd yn ddibynnol ar ffynonellau tanwydd drud i wresogi eu cartrefi. Ffactor allweddol arall yw effeithlonrwydd ynni gwael a geir ar gyfartaledd mewn cartrefi ar wahân yng nghefn gwlad sydd â waliau solet.

I helpu i fynd i'r afael â hyn, sefydlwyd Fforwm Tlodi Tanwydd gennym yng Ngheredigion y mae ei fwriad yw datblygu a chryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau i sicrhau ymagwedd gynhwysfawr a chydlynol tuag at ymdrin â Thlodi Tanwydd a Marwolaethau Ychwanegol y Gaeaf ar draws Ceredigion. Ymhlith aelodau'r grŵp mae cynrychiolwyr o'r cyngor sir, Age Concern Cymru, y cymdeithasau tai lleol, Cyngor ar Bopeth, Gofal a Thrwsio, Undeb Credyd Gorllewin Cymru a'r bwrdd iechyd lleol. Drwy waith y grŵp yma y cawsom wybod am nifer o glybiau olew sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn y sir a manteision swmp-brynu tanwydd roeddent yn eu cyflwyno i'w cymunedau, ynghyd â goresgyn y problemau wrth archebu'r maint lleiaf posibl o olew. Drwy'r grŵp fe ddaeth yn amlwg hefyd bod ardaloedd heb nwy yn y sir nad oedd ganddynt glybiau tanwydd ac nad oedd y rhai oedd ar waith bob amser yn ymgysylltu â'i gilydd er mwyn cydlynu a chael y gorau o'u grym prynu.

Pan gododd cyfle i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru am brosiect peilot oedd yn adeiladu ar waith y syndicetiau olew presennol yn y sir, fe wnaethon ni achub arno'n syth! Mae'r pecyn cymorth hwn yn mynd â chi gam wrth gam ar ein siwrnai deunaw mis, mewn ffordd ymarferol a difyr sy'n gadael i chi ddewis a dethol beth sydd ei angen arnoch chi. Mae'n manylu ar rai o'r agweddau mwyaf diddorol ar glybiau olew – gan ystyried y cyfleoedd i wneud arbedion a sut i gael pobl i gymryd sylw o dlodi tanwydd. Ein gobaith yw y bydd yn ysbrydoli ac yn rhoi sail gwybodaeth i'r gwaith rydych yn ei wneud yn eich ardal.

Nid yn unig bod ein prosiect Clwb Clyd wedi ehangu'n sylweddol yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan y clybiau tanwydd yng Ngheredigion, mae hefyd wedi creu rhwydwaith a fydd yn sicrhau cynaliadwyedd y prosiect yn y tymor hir, greal sanctaidd unrhyw waith ymgysylltu yn y gymuned. Mae hefyd wedi meithrin hyder yn y grŵp – gan eu hysbrydoli i wneud mwy ac adeiladu ar beth maent yn ei wneud yn barod, gan gynnwys ystyried tanwyddau eraill y gallent eu prynu mewn swmp yn ogystal ag ymchwilio i effeithlonrwydd ynni. Wedi'r cwbl, rhaid mai peidio â phrynu olew, oherwydd eich bod yn ei ddefnyddio'n gallach, yw'r dewis rhataf ohonynt i gyd.

## Gaynor Toft

**Rheolwr Llesiant Cymunedol**

# Sut i greu rhwydwaith o syndicetiau tanwydd – arweiniad cam wrth gam

**Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad cam wrth gam i chi ynglŷn â datblygu rhwydwaith effeithiol o glybiau tanwydd yn eich ardal. Mae'n tynnu ar yr hyn sydd wedi'i ddysgu gan brosiect Clwb Clyd Ceredigion a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn amlygu rhai o'r prif faterion i feddwl amdanynt wrth adeiladu'r rhwydwaith, fel ymdrin â thlodi tanwydd ac ystyried sut mae cyflenwyr olew'n gweithredu.**

Mae'n cael ei hanelu at Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Cymunedol a Chymdeithasau Tai. Mewn ardaloedd gwledig lle nad oes nwy i'w gael, mae llawer o bobl eisoes yn dod ynghyd yn anffurfiol i archebu olew mewn swmp. Mae'r pecyn cymorth hwn yn edrych ar yr holl bethau y gall sefydliadau eu gwneud i adnabod beth sy'n digwydd yn barod a chefnogi a chael y gorau o'r gwaith yma fel y gall mwy o bobl elwa ar fod yn aelod o syndicet tanwydd.

Mae'n wahanol i becynnau cymorth eraill gan ei fod yn anelu nid yn unig at fod yn arweiniad 'sut i' i gydlynwyr newydd, er ein bod wedi cynnwys yr wybodaeth honno. Mae llawer o enghreifftiau da o becynnau cymorth i gydlynwyr eisoes ar gael – rydym yn rhestru rhai ohonynt **fan hyn - atodiad 3**. Dyma fwy o arweiniad strategol sydd wedi'i anelu at sefydliadau sydd am gael y gorau o waith syndicetiau tanwydd yn eu hardal.

1 **Dechrau wrth eich traed** – Pwy sy'n rhedeg syndicetiau yn eich cymuned? Ewch ati i ddod o hyd iddynt a chyfarfod â nhw a darganfod pa anghenion sydd ganddynt o ran cefnogaeth. Ceisiwch eu caniatâd i weithio yn y gymuned i helpu i ddatblygu'r rhwydwaith.

2 **Meithrin perthynas** – Drwy sgyrsiau a chyfarfodydd cychwynnol, meithrinwch berthynas ac ymddiriedaeth rhwng eich sefydliad a'r cydlynwyr a rhwng y cydlynwyr eu hunain.

3 **Creu rhwydwaith** – Dewch â phobl at ei gilydd. Mae hyn yn hybu rhannu gwybodaeth, cefnogaeth gydfuddiol, gweithio mewn partneriaeth a mwy o gydlynwyr sefydledig yn mentora newydd-ddyfodiaid.

4 **Cael hyd i'r bylchau** – Gall fod ardaloedd daearyddol nad yw'r syndicetiau presennol yn eu cyrraedd. Wrth i chi bennu cwmpas a chreu'r rhwydwaith, mae'r rhain yn dod i'r amlwg. Chwiliwch am ffyrdd naill ai o gychwyn syndicetiau newydd neu eu cynnwys mewn syndicetiau sydd eisoes ar gael.

5 **Creu bwrlwm** – Mae sefydliadau megis Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai neu sefydliadau Trydydd Sector mewn sefyllfa unigryw i adeiladu proffil gwaith cydlynwyr y syndicetiau drwy greu brand a chynnal ymgyrch neu hyrwyddo'r gwaith mewn digwyddiadau perthnasol. Mae hyn yn helpu i'r cydlynwyr presennol deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn ogystal â helpu i sicrhau cyhoeddusrwydd a dod â hygrededd i'r gwaith.

6 **Cadw'r sgyrsiau i fynd** – Fel hwyluswyr i rwydwaith, gall sefydliad gyflwyno trafodaethau ar bynciau cysylltiedig, fel mentrau ynni eraill sydd ar gael, strategaethau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd. Gall sefydliadau hefyd helpu i hwyluso trafodaethau rhwng cwmnïau olew a syndicetiau i sicrhau eu bod yn rhedeg mor effeithlon ag sy'n bosibl.

7 **Cydgynllunio cynaliadwyedd hirdymor** – Cydweithiwch â'r grŵp i ystyried ffyrdd y gall barhau i gyfarfod a chyfathrebu pan fydd eich cyfraniad wedi gorffen. Hefyd, ystyriwch sut gallent ddefnyddio unrhyw allbynnau o'r prosiect – megis brandio neu bresenoldeb ar y we i gefnogi gwaith parhaus.

8 **Cadw llygad am syrpreisys** – Mae'n hawdd gwneud rhagdybiaethau am beth, yn eich barn chi, fyddai'n gwneud i'r rhwydwaith weithio orau. Yng Ngheredigion, cawsom ein synnu weithiau gan beth mewn gwirionedd oedd yn gweithio ar lawr gwlad.

## 1 Dechrau wrth eich traed

Y dasg gyntaf yw darganfod beth sydd eisoes yn digwydd yn eich ardal. Gall hyn lyncu amser mewn ardaloedd lle nad oes nwy i'w gael – rhai gwledig fwy na thebyg. Mae'n gofyn gwaith ymchwil sylfaenol; fel arfer mae rhywun yn gwybod am un neu ddau o enwau cyswllt a fydd yn eich arwain at rai eraill. Gellid ymchwilio'n gyntaf efallai mewn adrannau tai neu dlodi tanwydd. Mae'n bosibl y bydd Cymdeithasau Tai'n ymwybodol o syndicetiau ac efallai y bydd syniadau hefyd gan ganolfannau Cyngor ar Bopeth neu Ganolfannau Teulu. Hefyd, mae gan rai syndicetiau bresenoldeb ar y we neu mae rhyw fath o gyfeiriad atynt ar y rhyngrwyd – felly, gall ychydig o waith gwglo ddwyn ffrwyth. Yng Ngheredigion roedd un neu ddau o gydlynwyr syndicetiau tanwydd wedi bod yn y newyddion a chawsom hyd iddynt drwy gwglo.

## Ein profiad...

Cymerodd ddau fis i'n prosiect bennu cwmpas yr ardal ac adnabod y saith cydlynydd cychwynnol. Roedd eisoes rhai cysylltiadau gan Gyngor Sir Ceredigion drwy brosiect 'Cymdogion Cynnes' yr oedd yn ei redeg. Unwaith i ni adnabod y cydlynwyr hyn, aethon ni i ymweld â nhw. Bu hyn yn help i ni gael gwybod mwy o fanylion a dechrau meithrin ein perthynas â nhw. Bu hefyd yn ein helpu i adnabod beth oedd eu hanghenion o ran cefnogaeth a beth gallem ei gynnig iddynt a fyddai'n ddefnyddiol. Roedd gwybodaeth anecdotaidd gan gydlynwyr am gydlynwyr eraill a'n helpodd i ehangu'r rhwydwaith ymhellach. Buom hefyd yn tynnu ar wybodaeth o rwydwaith mewn sir gyfagos (Sir Gaerfyrddin) lle'r oedd nifer o syndicetiau'n gorgyffwrdd â Cheredigion.

## Hanes canfod Dai John

Roedd rhywun yn y cyngor oedd yn gweithio ar dlodi tanwydd wedi clywed bod postmon yn Llanddewibrefi oedd yn rhedeg clwb olew. Roedd wedi clywed mai Dai John oedd ei enw. Dyma ni'n gwglo ei enw ac enw'r dre gydag allweddeiriau megis 'olew' a 'chlwb' a 'syndicet' heb lwyddiant, ond yn lle hynny dyma dudalen Facebook yn dod i'r fei oedd yn rhestru syndicet tanwydd gweithredol iawn gerllaw ac eitem newyddion gan y BBC o 2011 yn sôn am gymuned yn gwneud arbedion drwy syndicet.

Roedd y dudalen Facebook yn fyw, gyda phostiadau rheolaidd ynghylch prisiau olew a dyddiadau archebu, ond doedd dim sôn am Dai John. Ta waeth, roedd pwy bynnag oedd yn postio ar y dudalen yn sôn am brosiect cymunedol lleol fel man cyswllt – felly cawsom hyd i'r rhif a'i ffonio.

Dywedon nhw wrthon ni eu bod yn meddwl mai Dai John oedd y person oedd yn postio ar Facebook o dan enw arall. Pan aethon ni ati i esbonio natur ein gwaith, rhoddwyd ei fanylion cyswllt i ni. Ryw bythefnos yn ddiweddarach, dyma ni'n ymweld ag e. Ar ôl tair wythnos o ddilyn dolenni ar lafar ac ar y we, llwyddon ni o'r diwedd i gael hyd i Dai John!





## 2 Meithrin perthynas

Mae gan bobl wahanol gymhellion dros ddod yn wirfoddolwyr cydlynu clybiau olew. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **awydd i gynnig gwasanaeth defnyddiol i'r gymuned**
- **ffordd o ddod i gysylltiad â phobl eraill mewn cymuned**
- **diddordeb mewn cael y pris gorau am olew**
- **mae'n haws cael meintiau llai o olew am bris rhesymol**

Efallai y bydd gwirfoddolwyr sydd wedi bod wrthi'n cyflawni eu rolau'n ddigon diddig yn y gymuned dros nifer o flynyddoedd yn teimlo'n nerfus os bydd rhyw gorff 'cyhoeddus ei olwg' yn dod i gysylltiad. Mae'n bwysig ar yr adeg yma i gymryd ychydig amser i siarad am bethau gyda phob person cyswllt. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod pwy bynnag sy'n ymgysylltu â'r cydlynwyr yn rhywun sy'n dda gyda phobl.

## Ein profiad...

Pan aethon ni at y cydlynwyr sy'n gweithio yng Ngheredigion, doedden nhw ddim yn siŵr pwy oedden ni a beth oedd ein bwriad. Roedd yn bwysig siarad â nhw i egluro ein rôl fel hwylusydd yn hytrach na sefydliad oedd yn ceisio rheoleiddio neu ddweud wrthynt beth ddylent ei wneud. Roedd un cydlynydd yn argyhoeddedig y byddem yn ymyrryd â beth oedd eisoes yn gweithio'n dda iawn ac efallai hyd yn oed yn mynd â rhywfaint o'u harbedion. Cawsom mai amrywiol oedd y cymhellion. Yn ôl rhai, "Dw i'n ei wneud e fel gwasanaeth ac fel hobi"; sylw rhywun arall oedd, "Mwya i gyd o help y galla i ei roi i'r teuluoedd tlota, gorau oll" ac un arall: "Un o'r bobol 'na ydw i sy'n lico chwarae 'da ffigyre. Dw i'n joio 'neud e." Roedd rhedeg syndicet hefyd i'w weld yn apelio at bobl sydd wrth eu boddau'n arbed arian neu'n mwynhau bod ar y blaen i'r hyn a welant fel corfforaethau tanwydd mawr a grymus.

## 3 Creu rhwydwaith - dod â phobl at ei gilydd

Unwaith i chi feithrin perthynas dda â'r cydlynwyr, gallwch fynd ati i greu rhwydwaith. Man cychwyn gwych yw trefnu cyfarfod rhwng y cydlynwyr. Cymhelliad ardderchog yw bod â chyllideb fach ar gyfer treuliau teithio, man cyfarfod a lluniaeth ysgafn.

Mae trefnu cyfarfod lansio mwy ar y cychwyn sy'n dwyn at ei gilydd y cydlynwyr a phobl leol allweddol megis ASau, ACau neu gynghorwyr sydd â diddordeb, yn creu teimlad dathliadol sy'n annog pobl i gymryd rhan. Unwaith mae pobl wedi cwrdd a siarad a ffurfio perthynas â'i gilydd, maent yn debygol iawn o gysylltu â'i gilydd eto a dechrau cydweithio.

## Ein profiad...

Yng Ngheredigion aethom ati i greu 'brand', Clwb Clyd, i helpu i roi proffil, hunaniaeth a hygrededd i waith y syndicet tanwydd yn y gymuned. Cynhalion ni ddigwydd lansio yn Swyddfeydd y Cyngor yng nghanol y sir. Roedd cynnal y cyfarfod rywle sydd â statws a gwahodd cynrychiolwyr allweddol y gymuned (yr AS, yr AC ac Arweinydd y Cyngor) yn tanlinellu gwerth y digwyddiad a gwaith y cydlynwyr. Hwn hefyd oedd y cyfle cyntaf i'r cydlynwyr ddod at ei gilydd mewn cyfarfod.

Gwahoddwyd cwmnïau olew lleol gennym i hyrwyddo cynwysoldeb ac annog cydweithrediad. Yn sgil y cyfarfod cyntaf, buom yn trefnu cyfarfod dilynol ychydig fisoedd yn ddiweddarach. Treulion ni rywfaint o amser yn y cyfarfod cyntaf â'r cydlynwyr yn defnyddio **technoleg gofod agored** i hel pynciau oedd o'r diddordeb mwyaf i'r cydlynwyr gan drefnu agenda o'u cwmpas. Ymhlith y materion dan sylw roedd:

- Cyhoeddusrwydd
- Cydlynu: Cynllunio/cael y gorau o archebion syndicetiau gan gynnwys ystyried yr archebion mwyaf a lleiaf posibl.
- Sut i dargedu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed a phwysigrwydd archebion 250 litr i'r rheini sy'n methu fforddio mwy.
- Cyfrif Cyllidebu Tanwydd yr Undeb Credyd.
- Adeiladu syndicetiau newydd – recriwtio cydlynwyr ar gyfer grwpiau newydd ac sydd eisoes yn bodoli **(gweler yr astudiaeth achos o'r Rhwydwaith)**
- Cynaliadwyedd: Sut i gynnal cyfathrebu hirdymor fel rhwydwaith
- Talu costau cydlynwyr (megis costau post, ffôn ac yn y blaen)

Doedd y rhan fwyaf o'r cydlynwyr ddim wedi cyfarfod o'r blaen. Yn syth, gallent rannu gwybodaeth fuddiol am brisiau, profiadau archebu, systemau gweinyddu a recriwtio. Nododd un o'r cydlynwyr pa mor amrywiol oedd y grŵp gan synhwyro'n syth fod yna bethau y gallai eu dysgu gan eraill: "Ma shwt gwmint o bobol wahanol, ma'n fendigedig!" O ganlyniad i'r cyfarfod hwn a rhai ers hynny aethant ati i feithrin cysylltiadau annibynnol oedd yn eu galluogi i gydweithio. Mae'r digwyddiadau hyn wedi dod yn bwysig i rai wrth helpu i barhau i'w cymell nid yn unig i redeg eu rhwydweithiau ond i adeiladu arnynt.

## **Astudiaeth achos:** Sut mae rhwydwaith yn tyfu syndicetiau…

**Felin-fach:** Yn un o'n digwyddiadau sioe lôn Clwb Clyd, cwrddon ni â rhywun a fynegodd ddiddordeb mewn dechrau syndicet tanwydd yn y Felin-fach, ardal oedd heb rwydwaith o'r fath ar y pryd. Drwy Rwydwaith Syndicetiau Tanwydd Ceredigion, aeth i gysylltiad â chydlynydd syndicet cyfagos oedd yn falch o'i helpu i ddechrau pethau. Roedd yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth hon gan ddweud bod y mentora yma wedi rhoi 'hyder enfawr' iddi i gadw i fynd a bod cyfarfodydd y rhwydwaith wedi rhoi 'llwyth o syniadau' iddi ar gyfer rheoli'r syndicet newydd.

**Pencader:** Pan roddodd cydlynydd lleol ym Mhencader, Sir Gaerfyrddin, y gorau iddi, roedd pobl y fro'n wynebu colli'r syndicet a dychwelyd at brisiau olew uwch. Codwyd y mater gyda chydlynwyr Rhwydwaith Ceredigion ac roeddent yn awyddus i sicrhau y byddai'r syndicet yn dal i weithredu. Gwirfoddolodd un o'r aelodau i ehangu ei grŵp i'r ardal hon gan alluogi'r gwasanaeth i barhau i'r gymuned yma.

**Drefach Felindre:** Hwn oedd y syndicet mwyaf yn y rhwydwaith, gydag aelodaeth gynyddol o 350 o aelodau o dan reolaeth un cydlynydd. Roedd y cydlynydd a'r cyflenwr yn dechrau cael eu gorlwytho, gydag archebion mawr yn achosi oedi wrth gyflenwi'r tanwydd. Yn sgil trafod rhwng y cydlynydd, y cyflenwyr a'r rhwydwaith, cytunwyd y byddai'r syndicet yn ymrannu'n chwe grŵp llai. Darparwyd cefnogaeth i'r pum gwirfoddolwr newydd ar y dechrau gan y Rhwydwaith. Rhoddodd wybodaeth a chefnogaeth hanfodol iddynt a fagodd eu hyder gan eu galluogi i ymgymryd â'u rôl newydd.





**Llun:** Cydlynwyr Rhwydwaith Ceredigion yn cyfarfod i rannu gwybodaeth ac arferion gorau

## 4 Cael hyd i'r bylchau

Wrth i chi bennu cwmpas sir neu fro ar gyfer syndicetiau, daw'r bylchau'n glir. Yng Ngheredigion roedd bwlch o'r fath yng ngogledd y sir. Nid yn unig mae trwch y boblogaeth yn llai ond mae hefyd yn ardal lle ceir darlun mwy cymysg o fod heb nwy, gyda nwy, tanwydd solet ac LPG. I gychwyn grŵp mewn ardal newydd, rhaid ennyn diddordeb ac adnabod hyrwyddwr cymunedol sy'n fodlon ymgymryd â'r gwaith. Dyma le y gall y rhwydwaith fod yn hanfodol; mae'n gallu rhoi cefnogaeth ymarferol a magu hyder darpar gydlynydd neu un newydd. Fel gyda phob ymgysylltu cymunedol, gall fod yn anodd gwybod o ble daw'ch hyrwyddwr. Man cychwyn da yw grwpiau cymunedol sydd eisoes yn bodoli a hefyd cysylltu â digwyddiadau neu sianeli gwybodaeth sydd ar gael yn yr ardal yn barod. Unwaith i'r diddordeb gael ei nodi, efallai y byddai'n werth trefnu cyfarfod penodol yn yr ardal i ysgogi diddordeb ehangach neu efallai y bydd y cydlynydd am ddechrau gyda grŵp bach yn unig sydd wedi ffurfio drwy gysylltu ar lafar. Yma eto, mae'r rhwydwaith yn ddefnyddiol oherwydd mae'n bosibl dod â chydlynydd o ardal lle ceir syndicet yn barod i sôn am ei brofiadau. Gall maint syndicet amrywio'n ddramatig o lond dwrn o bobl i garfan fawr. Nid yw maint y grŵp o bwys (cyhyd ag y bydd y cydlynydd yn barod i'w weinyddu), yn wahanol i faint yr archeb. Am fwy o wybodaeth gweler: **Mae maint yn cyfrif – pethau i'w hystyried wrth archebu**

**Llun:** Cyfarfod sefydlu Clwb Clyd@Cletwr, Ionawr 2015

## Clwb Clyd @ Cletwr

Siop gymunedol yng ngogledd Ceredigion yw Siop Cynfelyn (Caffi Cletwr gynt). Buom yn trafod y syniad o syndicet ag un o'u hymddiriedolwyr. Yna, cawsom hyd i wirfoddolwr a chyda'i gymorth aethon ni ati i drefnu digwyddiad sioe lôn Clwb Clyd yn y neuadd gymunedol. Drwy gysylltu ar lafar estynnodd ein gwirfoddolwr wahoddiad i bobl ddod i'r digwyddiad. Roedd yn awyddus i ddechrau ar raddfa fach ond ar ôl gwneud un archeb a chysylltu â chydlynwyr eraill drwy'r Rhwydwaith, yn fuan iawn magodd hyder ac ehangwyd y grŵp i bentrefi cyfagos. Roedd y grŵp yn awyddus i elwa mewn tair ffordd:

1. Arbed arian
2. Dod at ei gilydd fel cymuned
3. Lleihau carbon drwy gyflenwadau mwy effeithlon

Yn ddiweddar maent wedi gofyn am fwy o wybodaeth am ffyrdd o weithio yn y gymuned i gynyddu effeithlonrwydd ynni.

"Mi wnaethon ni arbed **£300** i'r grŵp gyda'n harcheb gyntaf sef **5c y litr**... Wrth symud ymlaen, ein diddordeb yw ehangu o olew i danwyddau eraill, trydan yn sicr, a chyngor ar ynni..."

**Cydlynydd Clwb Clyd@Cletwr**



## 5 Creu bwrlwm - brandio a lansio

Mae creu bwrlwm ynglŷn â'r gwaith drwy 'frand' a/neu gyhoeddusrwydd yn helpu i hybu ymwybyddiaeth a hygrededd gan ymestyn yn ehangach i'r gymuned. Mae cydlynwyr unigol yn dibynnu ar ymgyrchoedd taflenni a phosteri ar raddfa fach ynghyd â chyhoeddusrwydd llafar a gall hyn fod yn gyfyngedig. Rhaid i unrhyw frand fod yn gadarnhaol ac ymgysylltu'n emosiynol, cyfleu'r syniad yn effeithiol ac (os bydd angen) weithio'n ddwyieithog. Gall sianeli cyhoeddusrwydd gynnwys:

- Cyfryngau cymdeithasol
- Digwyddiadau sioe lôn anffurfiol mewn neuaddau pentref mewn ardaloedd syndicetiau tanwydd
- Hysbysebion ac erthyglau yn y wasg leol
- Hysbysebion mewn cylchlythyrau cymunedol a phapurau bro
- Stondinau mewn canolfannau siopa poblogaidd
- Presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol a digwyddiadau perthnasol eraill (e.e. rhai a drefnir gan Gymdeithasau Tai neu Gynghorau Cymuned)

## Astudiaeth achos: Brandio Clwb Clyd

Brand dwyieithog oedd Clwb Clyd (Club Cosy) oedd yn cyfleu 'dod ynghyd' ac iddo naws emosiynol gadarnhaol o 'gadw'n glyd'. Cynlluniwyd logo oedd yn hawdd ei ddefnyddio a'i addasu. Cafodd ei ddefnyddio ar bosteri, hysbysebion, taflenni a baneri naid. Dewisodd nifer o syndicetiau ei addasu at gyhoeddusrwydd lleol. Enw un o'r syndicetiau diweddaraf yw Clwb Clyd@Cletwr. Yn ein harolwg o gydlynwyr, buont yn nodi bod cyhoeddusrwydd Clwb Clyd wedi cael effaith sylweddol o ran eu helpu i recriwtio aelodau newydd.

## 6 Cadw'r sgwrs i fynd

Bydd cynaliadwyedd hirdymor y rhwydwaith yn fwy sicr unwaith y bydd y cydlynwyr yn dechrau meithrin cysylltiadau – wedyn gellir cael y gorau o ddysgu gan gymheiriaid. Wrth i'r grŵp ddatblygu mae'n gweithredu fel llwyfan effeithiol ar gyfer trafodaethau ehangach am faterion megis targedu tlodi tanwydd neu ffyrdd o gefnogi effeithlonrwydd ynni. Fel rhwydwaith gallant hefyd ystyried mentrau cysylltiedig megis cyfrifon tanwydd (a gynllunnir gan yr undeb credyd), prosiectau effeithlonrwydd ynni a chynlluniau fel Nest neu Cyd Cymru.

## 7 Cydgynllunio ffyrdd o'i gadw i fynd

Mae'n bwysig ystyried elfennau syml a fydd yn cynnal y rhwydwaith yn y tymor hir. Gallai'r rhain gynnwys gwe-dudalen syml sy'n rhestru'r syndicetiau ac (os yn bosibl) yn ei gwneud yn haws i breswylwyr ganfod pa syndicetiau sy'n cynnwys eu hardal hwythau (e.e. **www.ceredigion.gov.uk/fuelclubs** / **www.ceredigion.gov.uk/clwbtanwydd**). Rhaid iddi fod yn hawdd ei diweddaru. Bydd man cyfarfod di-dâl ar gyfer cyfarfodydd a lluniaeth sylfaenol hefyd yn ei gwneud yn haws i'r cydlynwyr barhau i gyfarfod. Bydd sicrhau bod y rhwydwaith yn gysylltiedig â mentrau perthnasol hefyd yn helpu. Yng Ngheredigion, roedd hyn yn cynnwys prosiect Nest, prosiect Cymdogion Cynnes a grŵp tlodi tanwydd y Cyngor.



## 8 Cadw llygad am syrpreisys

Mewn unrhyw weithgarwch ymgysylltu cymunedol mae'n bwysig bod yn agored a pheidio â rhagdybio dim. Dyma ambell syrpreis y daeth Prosiect Clwb Clyd Ceredigion ar ei draws ar hyd y ffordd a allai roi rhai enghreifftiau i chi o le mai'r gymuned sy'n gwybod orau:

- **Peth da yw gorgyffwrdd daearyddol syndicetiau** – Yn wreiddiol ein syniad oedd 'helpu' y cydlynwyr i ailddiffinio eu hardaloedd fel y byddent i gyd yn ymestyn dros ardaloedd â therfynau penodol heb unrhyw orgyffwrdd. Ein cred oedd y byddai'n haws fel hyn. Fodd bynnag, roedd y cydlynwyr yn fwy na bodlon gorgyffwrdd a sylweddolon ni, os bydd gan ddeiliad tŷ ddewis o ddau syndicet, yna mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn fwy hygyrch gan fod y syndicetiau'n tueddu i archebu ar wahanol adegau.
- **Mae amrywiaeth yn gweithio** – Mae pobl yn gwneud pethau'n wahanol. Bydd rhai pecynnau cymorth yn awgrymu y dylai syndicet gychwyn â chyfarfod neu dylai'r holl syndicetiau gael eu rhedeg mewn ffordd arbennig. Mewn gwirionedd, bydd pobl yn aml yn dechrau gyda chriw o gymdogion neu ffrindiau neu grŵp cymdeithasol. Yna, maent yn mynd yn gyfforddus â'r broses ac yn dyfeisio systemau sy'n siwtio nhw – nid yn unig o ran effeithlonrwydd, ond hefyd o ran beth sy'n siwtio eu bywydau. Os bydd rhywun yn mwynhau rhedeg syndicet yn rhannol oherwydd ei fod yn ei gysylltu â chymuned wedyn bydd yn datblygu system lle mae ganddo gysylltiad cymdeithasol. Os oes gan rywun fwy o ddiddordeb mewn gwneud arbedion iddyn nhw a phobl eraill drwy'r ymdrech leiaf, wedyn efallai y bydd yn mynnu defnyddio e-bost yn unig. Mae'n hollbwysig peidio â bod yn gyfarwyddol, ond yn hytrach gweithredu'n fwy fel mentor, gan gynnig gwahanol fodelau ac yna gadael i bobl wneud eu penderfyniadau eu hunain.
- **Ai arbedion yw popeth?** – Fel rhan o waith ymchwil Ceredigion gyda chydlynwyr, cafwyd, er bod y rhan fwyaf ohonynt yn cael sawl dyfynbris, bydd llawer yn aros gydag un cyflenwr gan ddatblygu perthynas a ffordd o weithio sy'n gwneud y tro iddyn nhw. Un rheswm am hyn oedd bod gan rai o'r syndicetiau lawn cymaint o ddiddordeb mewn swmp-brynu fel ffordd haws o gael y cyflenwadau llai (250/300 litr) am bris rhesymol. Mae'n werth cofio wedyn nad arbedion yw'r unig reswm am sefydlu syndicet.
- **Mae llafar gwlad yn ffordd well o ddechrau na chyfarfod cyhoeddus** – Mae'r holl dystiolaeth yn dangos mai llafar gwlad yw'r ffordd orau o gyhoeddi ac adeiladu syndicet – fel gydag unrhyw wasanaeth. Yn aml bydd grwpiau'n dechrau'n fach gan adeiladu'n araf. Mae hyn hefyd yn helpu i gynnal ymddiriedaeth (gweler Clwb Clyd@Cletwr). Y fantais o adeiladu'n araf ar sail ymddiriedaeth yw, ar ôl ychydig, gall ymlediad y syndicet drwy'r gymuned fod yn sylweddol. Yr anfantais bosibl yw y gall rhai grwpiau gael eu cau allan, ddim yn fwriadol, ond oherwydd nad yw grwpiau wedi gorgyffwrdd mewn ffordd sy'n galluogi'r gair i fynd ar led i gynnwys pob grŵp cymdeithasol. Dyma pryd y gall gweithio fel rhan o rwydwaith fod yn fuddiol wrth gefnogi syndicetiau i fwrw eu rhwydi yn ehangach.



**Yn ôl Cydlynydd un o Syndicetiau Clwb Clyd:**

> "Mae'n codi ofn arnat ti braidd, os wyt ti'n llwyddiannus wrth droi'r syndicetiau'n unffurf, byddan nhw'n marw. Bydd rhai'n ei wneud e yn fy ffordd i, eraill yn eu ffordd nhw, felly does dim modd mireinio'r fethodoleg."

**Roedd Clwb Clyd yn rhoi rhwydd hynt i lawer o wahanol fathau o gydlynwyr weithio mewn ffyrdd tra gwahanol – mae rhai'n defnyddio'r rhyngrwyd, rhai'n defnyddio'r ffôn, rhai'n siarad wyneb yn wyneb. Mae rhai ohonynt yn gweithio'n llawn amser, rhai wedi ymddeol, mae amser gan rai, ond dim gan eraill. Mae rhai'n ei weld fel hobi pleserus, mae rhai sydd ond yn gallu gwneud y lleiaf posibl.**

# Sefydlu Syndicet Olew
## – canllawiau i gydlynwyr

### Beth yw syndicet prynu olew?

**Mae syndicet prynu olew (sydd hefyd yn cael ei nabod fel clwb olew neu fenter olew gydweithredol) yn galluogi pobl i ymuno â'i gilydd i brynu olew gwresogi mewn swmp am bris gostyngol.** Gall meintiau syndicetiau amrywio, o ychydig gymdogion yn unig i grwpiau cymunedol mawr gyda chant neu ragor o aelodau. Mae maint y grŵp yn llai pwysig na maint yr archebion. Gweler **Mae maint yn cyfrif – pethau i'w hystyried wrth archebu**. Yn y rhan fwyaf o grwpiau, mae archebion yn cael eu rheoli gan un neu ragor o gydlynwyr gwirfoddol sy'n trafod pris cystadleuol â chyflenwyr tanwydd.

### Ein profiad...

Yn Llanddewibrefi ger Tregaron, cesglir archebion olew drwy ffurflenni archebu sydd i'w cael yn y siop a'r dafarn leol gan annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau lleol a helpu i gynnal yr economi'r leol. Yn y siop gymunedol yn Nhre'r-ddôl (**www.cletwr.com**), mae'r syndicet yn ychwanegu gwerth at ystod y gwasanaethau eraill sy'n cael eu hyrwyddo yno. Yn Whilen y Porthmyn yn Nhregaron, telir £1 am bob archeb ac mae hon yn mynd yn ôl i gronfa'r neuadd gymunedol.

## 1 Manteision syndicet

**Arbedion –** Gall aelodau syndicet fanteisio ar arbedion ariannol. Gellir arbed arian wrth brynu mewn swmp ond hefyd oherwydd, wrth ddod yn rhan o syndicet, bydd rhai pobl sydd â chytundebau hirdymor weithiau'n canfod eu bod yn talu prisiau sy'n uwch na'r cyfartaledd. Mae dod yn rhan o'r syndicet yn golygu eu bod yn adolygu ac yn ailystyried unrhyw gytundeb cyfredol.

**Carbon –** Mae archebu drwy syndicet hefyd yn cwtogi ar ollyngiadau carbon ac felly yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Gall syndicet o bum aelwyd yn yr un pentre leihau nifer y teithiau tancer o bump i un.[1] Mae cyflenwyr tanwydd sy'n cydweithio â syndicetiau yng Ngheredigion yn sôn am fanteision cyflenwi grwpiau mewn ardaloedd llai, gan gynnwys yr amser a arbedir drwy archebion swmp i gymunedau.

### Ein profiad...

Mewn rhai achosion yng Ngheredigion, arbedodd pobl hyd at draean ar eu biliau tanwydd. Roedd hyn drwy gyfuniad o swmp-brynu a pheidio â thalu cyfradd uwch. Mae un syndicet yng Ngheredigion wedi cofnodi arbedion rhwng £26 a £76 ar bob archeb 1000 litr – arbedion o 10% yn fras ar gyfartaledd dros 18 mis. Fodd bynnag, amrywiai lefelau'r arbedion yn ddramatig o 1-2g y litr (£10-£20 yr archeb 1000 litr) gyda rhai syndicetiau'n sôn am arbedion o 20 ceiniog y litr. Am ddadansoddiad cyflawn o'r arbedion posibl gweler: **Cynghorion a Chip tu ôl i'r Llen – arbedion**

**Cymuned –** Mae manteision eraill i'r gymuned o archebu ar y cyd oherwydd mae'n creu ffocws i bobl siarad â'i gilydd – gall hyn gyfrannu, ochr yn ochr â mentrau eraill, i hybu cydlyniant y gymuned. Gall 'hyb' lleol fod yn effeithiol wrth gefnogi sefydlu syndicetiau olew gan ychwanegu gwerth at yr hyb ei hun yr un pryd. Er nad yw'r mwyafrif llethol o gydlynwyr gwirfoddol yn codi tâl am brosesu archebion, mae rhai'n gwneud hyn i helpu i gyfrannu at gynnal a chadw canolfannau neu adeiladau cymunedol. Mae syndicetiau olew yn cael pobl i siarad a thalu llai am gadw'n gynnes.

[1] ACRE, Federation of Petroleum Suppliers and Citizen's Advice (2011) Best Practice for Oil Buying Groups **www.citizensadvice.org.uk/Global/Migrated_Documents/corporate/pdf-cam-oc-buyingguide-2011.pdf**

## 2 Cychwyn arni

**Lansio –** Mae rhai pecynnau cymorth yn awgrymu cyfarfod fel cam pwysig wrth gychwyn syndicet. Ond i lawer o bobl, dipyn o gontract yw hynny. Yn fynych, ar sail tystiolaeth gan gydlynwyr yng Ngheredigion, ar lafar gwlad yw'r ffordd fwyaf cyffredin ac effeithiol o gychwyn grŵp prynu tanwydd. Yn aml, bydd hyn yn digwydd o gwmpas grŵp cymdeithasol neu grŵp yn y gymdogaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys syndicetiau sydd wedi'u datblygu gan aelodau o bwyllgor digwyddiadau lleol, neuadd gymuned a siop gymunedol. Fodd bynnag, gall defnyddio e-byst a chyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo syndicet newydd fod yn hynod effeithiol. Mae un o'r syndicetiau mwyaf yng Ngheredigion yn defnyddio Facebook i hysbysebu prisiau ac arbedion y syndicet a hefyd fel ffordd boblogaidd o archebu.

**Cyhoeddusrwydd (Cyfarfod/taflenni/cylchlythyrau/papurau bro/llafar gwlad) –** Mae'n bwysig eich bod yn cael hyd i ffyrdd o hysbysebu'r cynllun sy'n gweithio i chi. Dyma rai ffyrdd y mae pobl eraill yn eu defnyddio:

- Hysbysebu dyddiadau archebion a manylion cyswllt mewn cylchlythyr tenantiaid neu gymunedol neu bapur bro (gall yr arbedion ar archeb flaenorol gan y syndicet hefyd gael eu cyhoeddi yma)
- Posteri yn ffenestri siopau lleol yn hysbysebu'r syndicet
- Tudalennau A4 wedi'u lamineiddio a'u torri'n ddarnau maint cerdyn credyd gyda dyddiadau'r archebion a gwybodaeth gyswllt arnynt yn cael eu postio drwy flychau llythyrau.
- Ffurflenni archebu syml yn cael eu gadael yn y siop leol a'u casglu cyn archebu
- Gofyn i gydlynydd syndicet profiadol draddodi sgwrs fer i drafod 'sut i redeg syndicet tanwydd' mewn cyfarfod clwb coffi lleol (e.e. Pennant / Llan-non)
- Defnyddio brandio lleol a chyfleu'r neges mewn ffordd gynnes a chadarnhaol i ddenu aelodau e.e. Clwb Clyd@ Cletwr.
- Gan mwyaf, bydd pobl yn ymuno â syndicetiau ar ôl clywed amdanynt ar lafar gwlad.
- Rhwydweithio cymdeithasol: Facebook, Trydar ac yn y blaen, er efallai na fydd rhai trigolion yn mynd at y llwyfannau hyn yn rheolaidd.
- Bydd gan lawer (er nid pob un) o grwpiau cymdeithasol mewn ardal ddolenni e-bost a gall y gair ymledu ar garlam drwy ffrindiau i ffrindiau – gellir hwyluso hyn drwy nodi ar yr e-bost: "Anfonwch hwn ymlaen at eich cymdogion".

**Ymrwymo o ran amser ac arian –** Yn ôl y rhan fwyaf o gydlynwyr a arolygwyd gan y prosiect yng Ngheredigion, nid yw rhedeg syndicet yn llyncu'ch amser nac yn gostus. Dibynna maint yr amser sydd ei angen yn rhannol ar sut mae'r broses wedi'i threfnu. Er enghraifft, os bydd aelodau'n e-bostio eu harchebion am olew, mae'n debygol o fod yn gynt na defnyddio'r ffôn. Ffactorau eraill sy'n effeithio ar amser a chost rheoli syndicetiau yw maint y grŵp, pa mor aml mae'r archebion yn digwydd (gweler **Amledd**) a nifer y dyfynbrisiau a geir gan y cyflenwyr. Mewn arolwg o 18 o syndicetiau sy'n gwasanaethu Ceredigion, dywedodd wyth cydlynydd eu bod yn treulio dwy awr neu lai i bob archeb, chwech eu bod yn treulio 3-8 awr a dim ond un a ddywedodd dros 8 awr (doedd 3 ddim yn gwybod).

Gweinyddiaeth – Mae llawer o gydlynwyr yn cael bod taenlen syml yn ffordd effeithlon o goladu gwybodaeth. Yna, gall hyn gael ei e-bostio'n hawdd i'r cwmni cyflenwi. Mae eraill yn llwyddo i archebu heb ddefnyddio cyfrifiadur nac e-bost gan ffafrio rhestru popeth ar bapur a chyfathrebu dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb. Y prif beth yw cael hyd i system sy'n hawdd i chi ei defnyddio. Mae'n bwysig bod y gwirfoddolwr sy'n gyfrifol am gofnodi a chadw gwybodaeth am aelodaeth yn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn ddiogel a bod yr aelodau'n gwybod hynny. Mae templed taenlen yn cael ei gynnwys yn **Atodiad 2**.

## 3 Gwneud archeb

**Amledd** – Mae hyn yn cael ei benderfynu gan nifer o ffactorau gan gynnwys:

- y galw gan yr aelodau,
- eich ymrwymiad o ran amser,
- adeg y flwyddyn a'r tywydd.

Ym mhrofiad y prosiect yng Ngheredigion, amrywia amledd yr archebu o bob pythefnos ar adegau galw brig i lawr i 3 gwaith y flwyddyn.

Gall fod yn fuddiol cyflwyno trefn glir i aelodau wrth hysbysebu: e.e. "Rydym yn archebu ar ddiwrnod cyntaf pob mis." Fodd bynnag, gallai arddull sy'n seiliedig ar y galw fod yr un mor effeithiol. Y naill ffordd neu'r llall, mae rhywfaint o hyblygrwydd o ran amserau archebu'n ddefnyddiol weithiau. Os yn bosibl, ceisiwch osgoi archebu ym mis Rhagfyr ac Ionawr pan fydd y galw'n uchel ac efallai y bydd cyflenwyr yn rhoi blaenoriaeth i archebion unigol ac yn codi'r prisiau.

Ar y llaw arall, nododd cwmnïau tanwydd mewn arolwg ffôn gan y prosiect yng Ngheredigion y gallai syndicetiau wneud yn well yn ystod misoedd yr haf pan fydd y galw'n llai. Cofiwch, mae'n bedair gwaith yn fwy costeffeithiol i gyflenwr gyflenwi 1000 litr i'ch tanc unwaith y flwyddyn na llenwi â 250 litr bedair gwaith y flwyddyn a bydd prisiau'n adlewyrchu hynny. Mewn syndicet, nid pawb sy'n gallu fforddio cyflenwad mawr. Mae cyfuniad o archebion mawr a mân yn ddelfrydol.

**Cael y Pris Gorau** – Mae syndicet olew'n anelu at brynu olew gan gyflenwr am y pris gostyngol gorau am brynu mewn swmp. Mae nifer o syndicetiau yng Ngheredigion yn gweithredu polisi 'y pris gorau sy'n ennill'. Mae hyn yn golygu cael dyfynbrisiau dros y ffôn gan sawl cyflenwr cyn cadarnhau'r archeb gyda'r cyflenwr rhataf ar y diwrnod. Mae daearyddiaeth yn dylanwadu ar y prisiau. Er enghraifft, efallai nad y cyflenwyr rhataf yn eich cymuned chi fydd y rhataf ychydig filltiroedd i ffwrdd. Mae maint yr archeb hefyd yn ffactor.

- Mae prisio'n amodol ar amrywiadau byr- a hirdymor. Efallai na fydd y cyflenwr rhataf ar y naill ddiwrnod yn cynnig y gyfradd rataf ar ddiwrnod arall gan fod prisiau'n newid yn ddyddiol a bydd cyfraddau prynu'r cyflenwyr yn amrywio o burfa i burfa. Efallai na fydd cyflenwyr yn dal y dyfynbris am fwy na diwrnod a hwyrach byddant am eu hamddiffyn eu hunain rhag codiadau prisiau yn y dyfodol drwy gynyddu'r pris a delir ar y diwrnodau ar ôl hynny. Mae rhai cydlynwyr hefyd yn monitro pris tymor hir Brent Crude i gynllunio pryd i wneud archeb sy'n seiliedig ar dueddiadau'r farchnad – gweler y ddolen: **http://oil-price.net/index.php?lang=en**
- Er mwyn cyfrifo arbedion y syndicet, mae'n arferol i gael dyfynbris dienw ar gyfer cyflenwad sydyn (er enghraifft 500 litr). Yr arbedion fydd y gwahaniaeth rhwng y dyfynbris yma a phris y litr i'r syndicet.
- Fel arfer, mae llawer o gydlynwyr yn tueddu i archebu o'r un cyflenwr bob tro; maent yn dweud y bydd cyflenwr penodol bron bob amser yn cynnig y pris lleiaf, neu mai'r cyflenwr hwnnw yw'r dewis gorau i gael y cyflenwadau lleiaf posibl. Fel hyn, mae cydlynwyr yn meithrin partneriaethau gweithio â'r cyflenwyr y maent yn eu ffafrio i sicrhau gostyngiad i'r syndicet am eu teyrngarwch. Mae hanner y syndicetiau sy'n gwasanaethu Ceredigion yn cael o leiaf tri dyfynbris, gyda'u cyflenwr 'arferol' gan amlaf yn cynnig y pris gorau. Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad oes unrhyw warant y bydd teyrngarwch yn esgor ar y pris gorau a dylid annog cydlynwyr i chwilio am y fargen orau o hyd.
- Systemau talu - Rhybuddiodd cydlynwyr yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o brosiect Clwb Clyd Ceredigion rhag cymryd unrhyw gyfrifoldeb am anfonebu neu daliadau aelodau. Bydd yn rhaid i aelodau syndicetiau dalu'r cwmni cyflenwi'n uniongyrchol yn ôl telerau'r cyflenwr o ddewis. Ar gyfer cwsmeriaid newydd, bydd llawer o gyflenwyr yn mynnu taliad wrth ddosbarthu, neu daliad ymlaen llaw drwy gerdyn dros y ffôn. Yn anaml y bydd rhywun yn methu talu, ond mae'n fater sydd wedi'i godi gan gyflenwyr oherwydd bod awydd a gallu aelodau syndicetiau i dalu'n anodd i'r cydlynwyr eu rheoli. Gweler mwy am hyn yn Cynghorion a **Chip tu ôl i'r llen – cydweithio â chyflenwyr olew.**

Fel rhan o arolwg a gynhaliwyd gan brosiect Clwb Clyd Ceredigion, dywedodd cyflenwyr mai llond tancer o **12,000** neu **18,000** litr sy'n ddelfrydol i'w dosbarthu i ardal fach.

# Cynghorion a chip tu ôl i'r llen – arbedion

## Cyflwyniad

Mae'n ddefnyddiol deall sut mae syndicetiau'n gallu cyfrifo arbedion. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i'r cydlynydd wybod beth yw pris olew i gwsmeriaid sydd ddim mewn syndicet. Bydd hyn yn helpu i fireinio a datblygu'r archebu a'r trafod. Fel arfer, sonnir mai arbedion o 10% - 12% sy'n bosibl drwy syndicetiau olew. Mae rhai cydlynwyr a phecynnau cymorth yn nodi y gall arbedion fod mor isel â £0.02 y litr ac wrth i brisiau olew ostwng, gall arbedion ddioddef. Yn yr ymchwil a wnaed yng Ngheredigion, cafwyd sbectrwm eang o arbedion, gan ddibynnu ar nifer o amrywiadau.

## Ffactorau sy'n effeithio ar arbedion

Mae'r arbedion a geir gan aelwydydd mewn syndicetiau tanwydd yn dibynnu ar sawl ffactor:

- Cyfraddau'r tanwydd a ddefnyddir yn flynyddol gan bob aelwyd.
- Prisiau a delir gan gwsmeriaid sydd ddim mewn syndicetiau.
- Gall y rhain amrywio, rhwng gwahanol gyflenwyr tanwydd a chan yr un cyflenwr (weithiau yn yr un stryd hyd yn oed).
- Cyfanswm y tanwydd a archebir yn cyrraedd y 'maint gorau'. Gweler **Mae maint yn cyfrif – pethau i'w hystyried wrth archebu**.
- Sgiliau trafod unigolion a chydlynwyr syndicetiau fel ei gilydd. Cafodd Ceredigion hyd i dystiolaeth anecdotaidd (a) gan drafodwr un o'r clybiau tanwydd a (b) gan denant tŷ preifat nad oedd yn aelod o syndicet, y gall arbedion sy'n debyg i'r rhai a geir gan syndicetiau weithiau gael ei sicrhau gan unigolion sy'n drafodwyr sgiliedig. Fodd bynnag, mae cyflenwyr tanwydd yn dweud bod yna ben draw i ba mor isel mae'r prisiau'n gallu mynd a bod gostyngiadau'n tueddu i fod yn safonol.
- Amrywiadau beunyddiol yn y prisiau. Mae'r rhain yn digwydd oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys prisiau purfeydd a chapasiti storio cyflenwyr unigol.
- Maint llwyth y tancer a natur ddaearyddol y rownd gyflenwi.
- Amrywiaeth yn y cyfrifiadau sylfaenol (prisiau nad ydynt ar gyfer syndicet yw'r rhain a ddefnyddir i fesur arbedion). Mae'r adran nesaf yn rhoi manylion ynghylch prisiau sylfaenol.



## Cyfrifo arbedion a chyfrifiadau sylfaenol

Fel arfer, mae arbedion yn cael eu cyfrifo drwy dynnu'r pris gostyngol i'r syndicet o 'ffigur sylfaenol' uwch. Felly, mae lefelau'r arbedion yn amrywio, yn ôl sut rydych yn pennu'r ffigur sylfaenol. Yn y prosiect yng Ngheredigion, nodwyd nifer o ffyrdd o wneud hyn, a allai, fel a welir, effeithio'n sylweddol ar gyfrifo'r arbedion:

- Pris a ddyfynnir gan gyflenwr a ffefrir am archeb sydd ddim ar gyfer syndicet, e.e. 500 litr. Weithiau mai cydlynydd neu aelod o'r cyhoedd sy'n cael hwn yn ddienw.
- Pris a ddyfynnir gan gyflenwr nad yw'n cael ei ffafrio ar gyfer archeb syndicet, neu archeb unigol, e.e. 500 litr.
- Pris a dalwyd yn ddiweddar am archeb unigol, e.e. 500 litr.
- Pris cyfartalog sydd wedi'i seilio ar ddyfynbrisiau gan sawl gwahanol gyflenwr.

## Mesur arbedion yn ôl pris y litr

Mae prisiau olew gwresogi'n cael eu mesur yn ôl pris y litr (e.e. £0.39 y litr). Yn ystod 2015, soniodd 18 o gydlynwyr yng Ngheredigion fod arbedion syndicetiau'n amrywio rhwng £0.21 a £0.01 y litr. O gofio'r amrywiadau mewn prisiau, efallai mai'r dull mwyaf buddiol o fynd ati yw cyfrifo arbedion ar ffurf ffigyrau canrannol (e.e. 10%).

### Astudiaeth achos: mesur arbedion cyfartalog yn y tymor hir

Drwy fesur perfformiad ers iddo ddechrau, mae un syndicet yng Ngheredigion wedi cofnodi arbedion cyfartalog o 10% dros 18 mis. Cafodd hyn ei gyfrifo drwy dynnu'r pris a gafodd y syndicet am 500 litr o ddyfynbris unigol nad oedd ar gyfer syndicet am 500 litr ar yr un diwrnod. Mae'r enghraifft hon yn rhoi pris sylfaenol dibynadwy yn hytrach na defnyddio dulliau cyfrifo sy'n seiliedig ar gymariaethau un tro rhwng gwahanol gyflenwyr ar wahanol ddiwrnodau a all greu ffigyrau arbedion uwch neu is.

### Stori Andrew

**Mae Andrew yn anabl ac yn byw ar ei ben ei hun ar stad dai yng Ngheredigion, lle mae llawer o bobl yn profi tlodi tanwydd. Roedd Andrew a'i gymdogion yn talu amrywiaeth eang o wahanol brisiau am danwydd gwresogi, o 47c hyd at 59c a chymaint â 70c y litr o danwydd.**

Pan gwrddon ni ag Andrew ym mis Mehefin 2015, roedd yn talu ei gyflenwr 59c y litr drwy Ddebyd Uniongyrchol am 500 litr, deirgwaith y flwyddyn. Ar ôl ymuno â'r syndicet tanwydd lleol, dim ond 39c y litr oedd cost ei archeb gyntaf, gan arbed £100 iddo'n syth. Roedd wedyn yn disgwyl arbed cyfanswm o £300 fan leiaf ar ei ddefnydd blynyddol sef 1500 litr. Peth pwysig oedd y ffaith ei fod yn gallu talu drwy ddebyd uniongyrchol o hyd. Roedd hyn yn ei helpu i gyllidebu, oherwydd bod y syndicet roedd yn aelod ohono bob amser yn delio â'r un cyflenwr olew. Nid hyn ynddo ei hun a'i tynnodd o dlodi tanwydd ond, fel ddywedodd Andrew, roedd wedi gwneud gwahaniaeth mawr:

> "A finnau'n anabl gydag anghenion gofal cynyddol mewn cyfnod o ddirwasgiad, roedd yr esgid fach yn gwasgu. Y bil mwya yn y tŷ oedd y bil olew. Mae'r arbedion a wnaed drwy ymuno â'r syndicet tanwydd yn golygu fy mod i ddim yn gofidio cymaint ac mae wedi gwneud gwahaniaeth go iawn!"

## Ffactorau prisio'r diwydiant

Mae arbedion syndicetiau hefyd yn dibynnu ar ba mor brysur yw'r cwmnïau cyflenwi. Yn ystod cyfnodau tawel yr haf, gall cwmnïau ddyfynnu'r prisiau isaf. Yn ystod cyfnodau prysur y gaeaf, mae'r gostyngiadau'n is, neu heb fod ar gael, oherwydd gall cwmnïau ennill mwy o elw pan fydd y galw am gyflenwadau sydyn fod ar ei uchaf. Mae cyflenwyr tanwydd yn dweud eu bod yn rhoi blaenoriaeth i gwsmeriaid teyrngar sy'n prynu'n uniongyrchol. Maent hefyd yn dweud nad yw'r seilwaith gan y diwydiant i ymdopi â mwy o alw yn ystod tywydd garw ac mae cwmnïau'n codi'r pris o dan yr amgylchiadau hyn. Am fwy o safbwyntiau cyflenwyr gweler **Cynghorion a chip tu ôl i'r llen – cydweithio â chyflenwyr olew**

## Cymydog Elaine

Mae Elaine yn rhedeg syndicet yng Ngheredigion ac roedd hi wedi annog ei chymydog oedrannus i ymuno, ond daliodd yn ôl, yn gyndyn o roi cynnig ar rywbeth gwahanol mae'n debyg. Gwnaeth Elaine archeb yn ystod y gaeaf gan sicrhau pris o £0.35 y litr. Wedyn, tarodd ar draws ei chymydog ac wrth sgwrsio, ddarganfod ei fod wedi talu £0.55 y litr. Gallai'r cymydog fod wedi arbed £200 ar 1000 litr drwy brynu gyda'r syndicet.

## Cynghorion Allweddol

- **Mae'n amlwg bod syndicetiau'n gwneud arbedion, weithiau cymaint â £300 y flwyddyn ar gyfer aelwyd unigol.**
- Gellir pennu ffigyrau sylfaenol mewn gwahanol ffyrdd – mae hyn yn arwain at ystod o ffigyrau arbedion.
- **Mae'n anodd rhoi'r arbedion ar ffurf canran oherwydd y nifer fawr o newidynnau; fodd bynnag, byddai oddeutu 10% fan leiaf.**
- Mae perygl y gall crocbris gael ei godi ar unigolion nad ydynt mewn syndicetiau, yn enwedig os nad oes sgiliau trafod ganddynt (neu os nad ydynt yn sylweddoli y gallant drafod y prisiau), neu os ydynt ynghlwm wrth drefniadau debyd uniongyrchol gydag un cwmni. Mae'r dystiolaeth o'r prosiect yng Ngheredigion yn awgrymu y gallai'r sefyllfa hon fod yn gyffredin.
- **Ceir peth tystiolaeth y gallai unigolion sydd â'r amser a'r sgiliau trafod sicrhau arbedion tebyg i'r rhai a geir syndicetiau.**



# Cynghorion a chip tu ôl i'r llen – gweithio â thlodi tanwydd a chyllid

## Dewisiadau ar gyfer helpu tlodion tanwydd â syndicetiau

**Gall ymuno â syndicet tanwydd fod yn elfen bwysig wrth godi pobl o dlodi tanwydd.** Os ystyrir elfennau eraill hefyd ochr yn ochr ag aelodaeth syndicet, gallai'r effaith fod yn fwy byth. Gallai'r rhain gynnwys: gwella ymddygiadau ynni-effeithlon yn y cartref, helpu gyda chyllidebu, gwella adeiladwaith y tŷ a mân fesurau effeithlonrwydd fel atal drafftiau.

## Yr ystyriaethau – Tlodi tanwydd a syndicetiau tanwydd

- **Yn y pen draw, efallai na fydd pobl mewn tlodi tanwydd yn defnyddio gwres ond pan fydd yn hollol angenrheidiol,** yn aml pan fydd yn oer iawn yn unig. Mae'r tueddiad hwn yn cynyddu gyda gwres canolog olew oherwydd cost cyflenwadau olew. O ganlyniad, gall cartrefi fynd yn damp gyda llwydni, gan gyfrannu i broblemau iechyd a dirywiad yr adeilad. Gall ymuno â syndicet tanwydd galluogi pobl i ddefnyddio'r gwres yn fwy cyson.

- **Gall llai o olew yn y tanc arwain at wagio'r tanc a all olygu** bod slwtsh o'r gwaelod yn gallu mynd i'r system wresogi a'i stopio'n gyfan gwbl – mae hyn yn creu'r gost ychwanegol o dalu peiriannydd gwresogi cymwysedig i ailgomisiynu'r boeler. Eto, gallai dderbyn cyflenwadau mwy rheolaidd drwy fod yn rhan o syndicet olew ddatrys y broblem hon.

- **Yn y prosiect yng Ngheredigion cawsom fod defnyddio caniau olew i brynu meintiau bach yn eithaf cyffredin.** Nid ydym yn cymeradwyo hyn. Er ei bod yn galluogi pobl i wario symiau hylaw bob tro, mae cost olew gwresogi y litr yn fwy o lawer (yn aml yn ddwbl) o orsaf betrol na thrwy gyflenwad swmp gan dancer. Gallai hefyd fod yn beryglus i drin olew fel hyn. Roedd rhai pobl y buom yn siarad â nhw ar un stad tai cymdeithasol yn ychwanegu at eu tanciau'n rheolaidd gyda chaniau olew 20L drwy gydol y flwyddyn fel ffordd o gyllidebu ar gyfer eu hanghenion dros y gaeaf. Gall syndicetiau olew helpu pobl i symud i ffwrdd o ddefnyddio'r dull costus a pheryglus hwn o gael olew.



- **Defnyddio tanwydd arall, drutach i wresogi, trydan fel arfer.** Defnyddir y dewis hwn yn eithaf helaeth pan fydd pobl yn ei chael yn anodd fforddio rhoi olew yn eu tanciau. Felly, maent yn talu mwy o lawer am eu gwres nag y byddent pe gallent redeg eu gwres canolog olew. Gallai edrych ar ymuno â syndicet ac ystyried gwelliannau mewn effeithlonrwydd fynd i'r afael â hyn.

## Gall Tlodi Tanwydd fod yn anweladwy

Mewn ardaloedd gwledig heb nwy, mae tlodi tanwydd yn aml yn 'anweladwy' i wneuthurwyr polisi oherwydd nad yw crynhoad cartrefi tlawd o ran tanwydd yn ddigon i fod yn amlwg ar y mapiau ystadegol neu'r setiau data sydd ar gael. Gall clybiau prynu olew lleol helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn yr ardaloedd hyn, nid yn unig drwy alluogi mynediad i danwydd rhatach, ond hefyd drwy godi ymwybyddiaeth gyffredinol am yr ystyriaethau, gan rannu gwybodaeth am grantiau a chyngor ar effeithlonrwydd ynni ac yn y blaen.

## Archebu meintiau llai

Mae nifer o syndicetiau yng Ngheredigion sydd ond yn defnyddio cyflenwyr sy'n gallu cyflenwi meintiau cymharol fach (250-300l). Mae hyn yn golygu bod eu gwasanaethau'n fwy hygyrch i aelodaeth ehangach, gan gynnwys y rheini sydd mewn tlodi tanwydd. Yng Ngheredigion cawsom fod ardaloedd sydd â lefelau tlodi uwch yn gallu bod ar wahân braidd i ardaloedd lle mae syndicetiau'n gweithredu. Fodd bynnag, drwy eu targedu'n fwriadol, o bosib mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, gellir datrys hyn.

## Talu am olew pan na fydd arian gynnoch chi

**Mae nifer o strategaethau** yn cael eu defnyddio gan bobl i osgoi talu swm un taliad am gyflenwad olew. Yn y cyfamser, mae rhai sefydliadau wedi edrych ar sut gallant ddarparu cyllid i'w galluogi i lenwi neu hanner llenwi tanc.

- **Talu debydau uniongyrchol rheolaidd i gyflenwr** – gall hyn helpu gyda chyllidebu ond mae angen ei adolygu'n rheolaidd; gall newid cyflenwr yn gyson gadw prisiau i lawr. Gweler <u>**stori Andrew**</u>.
- **Taliadau rheolaidd i gyfrifon cyllidebu,** fel Cyfrif Cyllidebu Tanwydd Undeb Credyd Gorllewin Cymru (<u>**www.wwcu.co.uk/loan/**</u>) – mae hyn yn galluogi pobl i gyllidebu i brynu olew a gyflenwir gan danceri ac ymuno â syndicet tanwydd. Mae gan gyfrif o'r fath yr hyblygrwydd ychwanegol o adael i'r cwsmer fenthyca o'r cyfrif am gyflenwad, yn ogystal â chynilo ar gyfer cyflenwadau yn y dyfodol; mae'r Undeb Credyd hefyd yn gallu talu'r cyflenwr olew ar ran deiliad y cyfrif. Nid yw hyn yn bosibl i bawb. (Am fwy o wybodaeth am gyfrifon tanwydd, gweler Atodiad 1. Cyfrifon Cyllidebu Tanwydd)
- **Mae gan nifer o gyflenwyr tanwydd** gyfrifon arbennig neu gynlluniau cyllidebu misol a all helpu eu cwsmeriaid i gyllidebu. Yn ôl rhai cwmnïau, maent hefyd yn gallu bod yn hyblyg, e.e. os bydd cwsmeriaid ychydig yn brin o'r taliad llawn am archeb, gellir gadael y swm hwnnw ar gyfrif. Yn yr un modd gyda debydau uniongyrchol, byddai'n bosibl defnyddio un o'r cyfrifon hyn a hefyd bod yn aelod o syndicet.
- **Cynllun talebau:** Fel rhan o'r prosiect yng Ngheredigion, buom yn trafod potensial cynllun talebau gyda'r Undeb Credyd, cydlynwyr y syndicetiau a'r cyflenwyr olew (a awgrymwyd yn wreiddiol gan denant tŷ cymdeithasol). Gallai cynllun o'r fath weithio mewn nifer o ffyrdd. Gellid prynu talebau drwy siopau/tafarnau lleol, clybiau tanwydd neu gyflenwyr olew. Gallent naill ai cael eu cyfnewid yn uniongyrchol am olew neu eu defnyddio i dalu i gyfrif cyllidebu tanwydd. Ni fyddai unrhyw reswm pam na ddylai rhywun sy'n defnyddio talebau beidio ag ymuno â syndicet tanwydd. Ni roddwyd cynnig ar hyn fel rhan o'r prosiect yng Ngheredigion oherwydd cyfyngiadau amser ond gallai gael ei beilotio gan brosiectau yn y dyfodol.

I gloi, gall syndicetiau tanwydd wneud cyfraniad pwysig i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd sydd heb nwy. Ni fyddant yn datrys tlodi tanwydd ar eu pennau eu hunain oherwydd i lawer o bobl (a) nid yw'r arbedion yn ddigon a (b) mae'r symiau cymharol fawr sydd eu hangen i dalu am gyflenwadau tancer yn anodd eu cael. Fodd bynnag, gellir cynyddu cyfraniad syndicetiau tanwydd drwy edrych ar effeithlonrwydd ynni (ymddygiadau a mesurau ffisegol) yn ogystal â thrwy ystyried gwahanol ddewisiadau ariannol.

# Cynghorion a chip tu ôl i'r llen

## – defnyddio dealltwriaeth o ymddygiad i ymgorffori ac ymgysylltu ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni

**Mae syndicetiau olew'n cynnig cyfle gwych i ymgysylltu'n ehangach ynglŷn â lleihau carbon ac arbed arian drwy effeithlonrwydd ynni.**

Gall y rhan fwyaf o bobl ddod yn fwy ynni-effeithlon. Cafodd prosiect Ceredigion mai'r bobl sydd â'r arian lleiaf weithiau, sy'n byw yn y tai salaf, oedd yn gwastraffu arian yn ddiangen drwy wastraffu ynni. Mae newidiadau syml mewn ymddygiad a mesurau effeithlonrwydd ynni bach yn gallu cyfuno i wneud gwahaniaeth mawr.

Ym mhrosiect syndicetiau tanwydd Clwb Clyd cafodd nifer o ymyriadau eu cynllunio i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ochr yn ochr ag aelodaeth o syndicetiau tanwydd.

## 1 Brandio

Roedd y brandio'n cynnwys neges ehangach ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni a defnyddio ynni'n gall. Lle bynnag roedd yn bosibl, roedd y cyhoeddusrwydd yn gwneud cysylltiadau rhwng syndicetiau tanwydd a chyngor ar effeithlonrwydd ynni.

## 2 Digwyddiadau

Bu'r digwyddiadau yng Ngheredigion yn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn y cartref ochr yn ochr â syndicetiau tanwydd. Cafodd hyn ei atgyfnerthu drwy gynnig rhoddion 'ynni-effeithlon' am ddim (fel 'selsig' atal drafftiau). Mae hyn yn tynnu ar ddamcaniaethau dysgu o seicoleg a'r rheini sy'n gysylltiedig â chynnig rhoddion am ddim o faes economeg ymddygiadol. Roedd y cymhellion yn cynnwys:

- Cynnig raffl i bawb a gofrestrodd i gael gwybod am eu syndicet lleol; ymweliad cartref ynghylch effeithlonrwydd ynni oedd y wobr, yn cynnwys hyfforddiant ar ynni a mesurau am ddim i arbed ynni
- Cynnig 'selsig' atal drafftiau am gyfeiriadau e-bost, er mwyn e-bostio pobl gyda manylion eu syndicetiau lleol (yn ogystal â gwybodaeth arall, fel mynediad i Nest, Cyfrifon Cyllidebu Tanwydd a Cyd Cymru)
- Dangos mesurau effeithlonrwydd ynni mewn digwyddiadau, i hybu trafodaethau ar effeithlonrwydd ynni ochr yn ochr â hyrwyddo syndicetiau.






## 3 Ymweliadau Clwb Clyd a dargedir

- Er mwyn tyfu'r aelodaeth, yn arbennig ymhlith grwpiau mwy agored i niwed lle roedd yr aelodaeth yn isel, bu'r prosiect yng Ngheredigion yn targedu ardal ag ymweliadau effeithlonrwydd ynni am ddim. Bu'r rhain yn helpu cyfeirio cartrefi at syndicetiau (a thrafod y broses â nhw) a rhoi cyngor teilwredig ar effeithlonrwydd ynni iddynt. Roedd hyn yn ei dro'n helpu i gysylltu prynu tanwydd mewn swmp am bris rhatach ag effeithlonrwydd ynni.
- Ceir tystiolaeth gynyddol bod derbyn cyngor perthnasol teilwredig ar ynni yn y cartref gan Hyfforddwr Ynni 'arbenigol' yn ffordd fwy effeithiol o newid ymddygiadau cleientiaid o'i chymharu â derbyn taflen neu gyngor mwy cyffredinol ar ynni.

## Astudiaeth achos: Hyfforddi ar Ynni yn y Cartref

Ymwelodd hyfforddwr Clwb Clyd ag LB yn ei chartref ar stad tai cymdeithasol yng Ngheredigion, ardal lle mae perygl mawr o dlodi tanwydd. Roedd yn byw mewn tŷ oer a drafftiog ac roedd ei boeler yn defnyddio gormod o olew oherwydd nam ar y thermostat. Gyda biliau uchel, roedd talu am olew yn peri gofid go iawn iddi. Rhoddwyd cyngor teilwredig iddi ar atal drafftiau, ymuno â syndicet a gwneud cais am gyfrif tanwydd Undeb Credyd. Fe'i cynghorwyd hefyd gan yr hyfforddwr i osod bylbiau ynni isel yn lle ei goleuadau halogen i leihau ei defnydd trydan.

Roedd LB yn gwerthfawrogi'r cyngor gan ddweud iddi newid y ffordd roedd yn defnyddio ynni ar ôl yr ymweliad gan Glwb Clyd. Newidiodd yr unedau halogen am fylbiau ynni isel, delio â'r drafftiau a sôn am y thermostat diffygiol wrth ei landlord. Roedd gan LB gymaint o ddiddordeb yn y syniad o syndicet tanwydd nes iddi ddechrau un ei hun gyda chymdogion ar y stad tai cymdeithasol. Wedyn, roedd yn cael ei chynnwys yng ngweithgareddau rhwydweithio a digwyddiadau Clwb Clyd.

## 4 Monitorau ynni

Roedd y prosiect yng Ngheredigion hefyd yn gweithio â monitorau ynni i helpu i sefydlu'r syniad o syndicetiau tanwydd fel partner naturiol i effeithlonrwydd ynni. Roedd hyn yn cynnwys:

- Defnyddio monitorau ynni i gael pobl i siarad â nhw am effeithlonrwydd ynni. Dangoswyd monitorau ynni Owl mewn digwyddiadau ac ar stondinau i ymgysylltu â'r cyhoedd a dechrau sgyrsiau am syndicetiau tanwydd ac effeithlonrwydd ynni. Yn aml byddai pobl yn cael eu denu atynt gan ofyn "beth yw hwnna?"
- Roedd rhannu straeon â'r cyhoedd am yr arbedion o ddefnyddio monitorau ynni (straeon lleol i helpu i 'normaleiddio' defnyddio monitorau) yn effeithiol wrth ysgogi pobl mewn digwyddiadau i gofrestru am ymweliadau cartref.
- Cynigiwyd nifer o fonitorau ynni i gydlynwyr syndicetiau. Cawsant eu hannog i'w rhannu â phobl eraill yn eu cymdogaeth a'u syndicetiau.
- Gosod monitorau yn ystod ymweliadau cartref. Bu hyn, ochr yn ochr â hyfforddi arbenigol ar ynni, yn rhoi cyfle go iawn i bobl i 'weld a deall' defnydd ynni yn eu cartrefi a chael darlun cywir o unrhyw arbedion.



## 5 'Selsig' atal drafftiau, e-byst ac ymweliadau cartref

Gall rhodd am ddim (hyd yn oed eitem rad) ysgogi'r teimlad y dylai cleient roi rhywbeth yn ôl. Roedd cleientiaid yn hapus rhoi cyfeiriad e-bost ar ôl derbyn 'selsigen' atal drafftiau. Gallai hyn gael ei ddefnyddio wedyn mewn e-bost dilynol i'w cysylltu â'u syndicetiau lleol.

### Astudiaeth achos: dechrau trafodaethau ar syndicetiau tanwydd ac effeithlonrwydd ynni gan ddefnyddio rhoddion am ddim

Roedd cynnig 'selsig' atal drafftiau am ddim fel ffordd o ymgysylltu â deiliaid tai ar stepen y drws yn llwyddiannus fel rhan o brosiect Clwb Clyd Ceredigion. Gadawodd hyn i ni gynnal holiaduron byr ar stepen y drws, yn ogystal â sicrhau apwyntiad mewn llawer o achosion i ymweld â phobl yn eu cartrefi. Elwodd y broses hefyd ar gyfraniad gweithwyr cyfranogiad tenantiaid o'r cymdeithasau tai a oedd yn gyfarwydd i lawer o denantiaid ar y stadau. Roedd hyn yn golygu bod hyfforddwyr ynni Ymlaen yn cael eu derbyn gan eu bod yng nghwmni cynrychiolwyr y landlord oedd fel arfer yn cael eu gweld fel negeswyr dibynadwy gan y tenantiaid. Gallent wedyn gael trafodaethau â'r tenantiaid ar effeithlonrwydd ynni ac ar ymuno â syndicetiau tanwydd lleol.

# Cynghorion a chip tu ôl i'r llen – cydweithio â chyflenwyr olew

**Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar ddata'r prosiect ac arolygon a gynhaliwyd yn 2015 gyda chwmnïau cyflenwi olew fel rhan o'n prosiect syndicetiau tanwydd yng Ngheredigion.**

## Peth cefndir defnyddiol

- Dau brif uwchgwmni mawr sydd yn niwydiant cyflenwi olew'r DU: DCC a World Fuels. Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae DCC wedi tyfu a hwn yw'r dosbarthwr olew mwyaf yn y DU erbyn hyn. Gan weithredu fel Certas Energy, mae'r cwmni wedi prynu ac integreiddio 38 o fusnesau yn y DU ers 2001, gan gynnwys busnes dosbarthu olew Shell, Total, Chevron Texaco a llwythi o frandiau lleol, e.e. Bayford, Brogan a Butler Fuels.[2]
- Mae hefyd llawer o gyflenwyr annibynnol lleol yn y DU. Os yw 'prynu'n lleol' yn bwysig i'ch syndicet prynu olew gallwch wirio beth sydd y tu ôl i frand rhyw gyflenwr drwy ychydig ymchwil – naill ai drwy ofyn i'r cwmni ei hun neu drwy chwilio ar y rhyngrwyd.

## Cyflenwyr a syndicetiau tanwydd

Tuag at ddiwedd y prosiect yng Ngheredigion, cynhaliwyd arolwg gyda chyflenwyr lleol. Wedi meithrin ein perthynas â nhw dros gyfnod y prosiect roeddent yn fodlon rhannu rhywfaint o'r ddealltwriaeth a gafwyd ganddynt wrth weithio â syndicetiau tanwydd.

- Dywedodd llawer o gyflenwyr eu bod yn fwy na hapus gweithio gyda syndicetiau olew gan fod y ddwy ochr yn amlwg yn elwa. Mae cwmnïau'n cydnabod eu bod yn gallu arbed amser a lleihau nifer a chost y siwrneiau drwy weithio gyda syndicetiau.
- Nid yw rhai cyflenwyr yn fodlon ymwneud â phrynu gan syndicetiau.
- Materion a dynnwyd sylw atynt gan gyflenwyr ac sy'n werth eu cofio yw:

• **Diffyg gallu rhagweld:** Yn ôl un cyflenwr: "Gallwch fod yn cyflenwi un syndicet un funud ac wedyn colli'r holl fasnach i gystadleuydd mewn chwinciad. Gall cannoedd o gwsmeriaid gerdded i ffwrdd."

• **Elw:** Roedd rhai cyflenwyr yn poeni y gallai prynu drwy syndicet dorri eu helw i lefelau anghynaliadwy. "Gallent fod yn fygythiad i gwmnïau llai drwy dorri elw."

• **Seilwaith:** Roedd rhai'n poeni y gallai gaeaf caled olygu bod cyflenwi archeb syndicet yn anodd: "Dyw'r seilwaith ddim gan y diwydiant i ymdopi mewn tywydd garw. Dyw'r senario yma ddim wedi'i brofi eto oherwydd bod gaeafau wedi bod yn fwyn."

• **Effeithlonrwydd:** Roedd rhai'n fwy na pharod i gydnabod bod syndicetiau, os ydynt yn gweithio'n dda, yn gallu bod yn fwy effeithlon: "Os ydyn nhw'n cael eu trefnu'n dda maen nhw'n wych. Yn dda i yrwyr cyflenwi, yn hytrach na mynd yn ôl i gymuned dro ar ôl tro."

• **Capasiti cwmnïau bach:** Mae rhai cwmnïau bach yn poeni y gall cwmnïau mwy o faint wasanaethu syndicetiau'n well: "Efallai na fydd y cwmnïau lleia'n goroesi. Maint y swmp yw'r peth."

[2] www.dcc.ie/our-businesses/dcc-energy/markets-and-market-position.aspx

### Cydweithio

Mae nifer o Syndicetiau Ceredigion wedi cydweithio'n agos â chyflenwyr tanwydd i ddatblygu ffordd gadarnhaol o weithio. Mae hyn wedi cynnwys sicrhau bod pobl sydd â llai o arian yn gallu gwneud archebion llai drwy weithio gyda chyflenwyr ar gyflenwadau 250L ac edrych ar ddatblygu systemau archebu sy'n cynnwys y nifer gorau o gyflenwadau o ran effeithlonrwydd a gwerth am arian. Tan yn ddiweddar, roedd cyflenwr oedd yn rhedeg pedwar tancer safonol ac un bychan yn gwasanaethu syndicet cynyddol o tua 350 o aelodau mewn ardal wledig (yn ogystal â syndicetiau eraill a chwsmeriaid uniongyrchol). Yn 2014, roedd archeb fawr gan syndicet o 50,000 litr wedi creu problem gyflenwi a chytunwyd y byddai'r syndicet yn cael ei rannu'n grwpiau llai, gyda phob un yn archebu ar wahanol ddyddiadau yn ystod y mis.

## Mae maint yn cyfrif – pethau i'w hystyried wrth archebu

- **Amseru yw popeth.** Dangosodd cyflenwyr a gafodd eu cyfweld fel rhan o'n harolwg y gallai syndicetiau helpu i sicrhau bod aelodau'n cael yr arbedion gorau posibl drwy brynu ym misoedd tawel yr haf. Pan fydd y galw'n uchel ym mis Rhagfyr ac Ionawr, maent o dan fwy o bwysau ac efallai y byddant yn rhoi blaenoriaeth i gwsmeriaid unigol.
- **Mae cyflenwyr yn gweithredu polisïau o ran y cyflenwad lleiaf.** Fel arfer, 500 litr yw hwn er gall rhai cyflenwyr ddarparu meintiau cyn ised â 200 litr. Mae syndicetiau yng Ngheredigion wedi gweithio gyda chyflenwyr i gefnogi cyflenwadau llai sy'n helpu aelodau y mae cyflenwad fforddiadwy yn hollbwysig iddynt.
- **Gall fod yn anoddach darparu meintiau llai –** awgrymodd cyflenwyr a gafodd eu cyfweld eich bod yn anelu at gyfuniad o gyflenwadau mawr (e.e. 1000 litr) a bach (e.e. 500 litr) yn archeb eich syndicet.
- **Mae'n fuddiol os bydd gofynion aelodau unigol yn cael eu cofnodi mewn archebion gan syndicetiau.** Gallai hyn gynnwys unrhyw beth, o broblemau mynediad lle mae angen tancer bach i gyflenwi, i'r cyfunrhif ar gyfer tanc olew sydd dan glo.

**Awgrymodd cyflenwyr yn ein harolwg mai'r archeb syndicet ddelfrydol yw un llond tancer i un gymuned (e.e. 12,000 neu 18,000 litr). Nid yw hyn bob amser yn bosibl ond mae'n werth ei ystyried wrth gynllunio archebion.**

- **Ystyriwch y maint gorau posibl i'r archeb.** Nid gorau po fwya sydd biau hi bob amser yn y diwydiant cyflenwi olew. Mae cyflenwi'ch syndicet olew'n effeithiol yn dibynnu ar gapasiti a seilwaith y cyflenwyr tanwydd yn eich ardal. Yn aml, mae storfeydd olew lleol yn defnyddio nifer cymharol fach o gerbydau cyflenwi.
- **Gall cyflenwyr bach ddewis peidio â gweithio gydag archebion mawr.** Nododd nifer o gyflenwyr yng Ngheredigion y gallant ddewis peidio â gweithio ag archebion mawr oherwydd gall fod yn llai proffidiol. Ar y llaw arall, os mai dim ond un neu ddau o bobl sydd am gyflwyno archeb syndicet, gall fod yn rhy fach i'r cyflenwr ystyried pris gostyngol. Mae gan gyflenwyr wahanol reolau ynglŷn â beth yw'r maint sy'n gymwys ar gyfer gostyngiad.

**Gall fod yn rhan o rwydwaith syndicet fod yn fantais, gan y gall archeb fach iawn gael ei hychwanegu'n hawdd at archeb syndicet gyfagos. Mae cydlynwyr rhwydwaith Ceredigion wedi cydweithio'n effeithiol iawn fel hyn.**

## Gair o rybudd - dyled ddrwg

- Awgrymodd cyflenwyr yn yr arolwg yng Ngheredigion y bu problemau yn y gorffennol gyda phobl yn peidio â thalu am gyflenwadau olew. Ambell waith, mae cwmnïau wedi cyflenwi tanwydd i aelod syndicet cyn derbyn taliad ac mae'r aelod dan sylw bellach wedi symud ymlaen. Mae polisïau cyflenwyr wedi newid mewn ymateb i hyn. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau bellach yn gweithio â chydlynwyr i sicrhau bod rheolau talu'n cael eu gwneud yn glir i aelodau cyn archebu. Erbyn hyn, maent yn tueddu i nodi eu bod yn mynnu taliad ymlaen llaw cyn cyflenwi, yn enwedig lle mae cwsmeriaid newydd yn y cwestiwn.

# Atodiad 1.
## Cyfrifon cyllidebu tanwydd

## Undeb Credyd Gorllewin Cymru – Cyfrifon Cyllidebu Tanwydd

### Cyfrif Cyllidebu Tanwydd – sut mae'n gweithio

Cafodd y Cyfrif Cyllidebu Tanwydd (**http://www.wwcu.co.uk/loan/**) ei gynnig gan UCGC fel cynnyrch peilot oedd yn rhan o brosiect gydag adran dai Cyngor Sir Caerfyrddin. Ei nod oedd mynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith tenantiaid a helpu i gefnogi tenantiaid oedd yn ymuno â syndicetiau tanwydd.

Ar y pryd roedd tenantiaid yn defnyddio caniau olew cymunedol i brynu olew gwres canolog am £20 yr wythnos o garej lleol. Yr adeg honno, roedd olew tua 60c y litr pan oedd yn cael ei gyflenwi gan dancer ac roedd tenantiaid yn talu oddeutu 90c y litr oherwydd na allent fforddio cyflenwadau 500 litr, hyd yn oed drwy syndicetiau.

Cyflwynwyd cyfrifon tanwydd i roi digon o gyfalaf i bobl i dalu am gyflenwadau olew, gan eu galluogi wedyn i archebu drwy syndicet tanwydd.

Gyda chyfrif tanwydd gall pobl brynu 500 litr o olew am bris y farchnad am olew yr adeg honno. Mae'n rhaid i'r benthyciwr wneud cais am y cyfrif sy'n cynnwys nodi incwm ei aelwyd a'i gyfrifiadau cyllidebu. Cyfrifir ad-daliadau bob wythnos, pythefnos, 4 wythnos neu fis i weddu i gyllideb y tenant hwnnw. Mae hyn yn golygu y gallent o bosib ad-dalu dros 16 wythnos ac wedyn ailfenthyca ar gyfer yr archeb nesaf. Yn ystod y misoedd cynhesaf pan fydd benthycwyr yn defnyddio llai o olew gallant barhau i wneud eu taliadau, sydd i bob perwyl yn golygu eu bod yn cael eu symud o sefyllfa fenthyca i un lle maent yn cynilo'n rhannol at yr archeb nesaf, gan fynd o gam i gam i sefyllfa lle maent yn cynilo heb yr angen i fenthyca.

I bob pwrpas cais cylchol am gredyd yw'r Cyfrif Cyllidebu Tanwydd – mae'n gweithio fel gorddrafft. Mae cwsmeriaid yn gwneud cais am swm cyfyngedig ac mae'r cyfyngiad hwn yn aros yr un fath:- h.y. nid oes raid iddynt ail-wneud cais bob tro y mae angen iddynt archebu. Os bydd £300 yn cael ei fenthyg a'i ad-dalu dros 16 o wythnosau cyfanswm y llog a godir ar 26.8%APR yw £8.90. Mae'r holl daliadau yn cael eu gwneud o Gyfrif Cyllidebu Tanwydd y cleient yn uniongyrchol i'r cwmni olew.

Yn Sir Gaerfyrddin mae cydlynwyr y syndicetiau olew hefyd yn wirfoddolwyr gyda'r Undeb Credyd ac yn gysylltiedig ag un o fannau gwasanaethu wythnosol yr Undeb sy'n ymwneud â'r prosiect. Mae hyn wedi galluogi tenantiaid i ddod â'u taliadau wythnosol mewn arian parod. Hefyd darparodd wasanaethau eraill yr undeb i'r tenantiaid fel cyfrifon cynilo at y Nadolig.

# Atodiad 2.

## Enghraifft o daenlen ar gyfer archebion

### dan ofal Syndicet Tanwydd Derwen-gam

| Dosbarthwyr Olew | Cyfeiriad | Rhif ffôn |
|---|---|---|
| J. Griffiths & Sons | Llanbedr Pont Steffan | 01570 ****** |
| W. Hall ltd | Aberystwyth | 01970 ****** |
| Valley Fuels | Aberteifi | 01239 ****** |
| ACME Oil Co. | Llandysul | 01559 ****** |
| Bryan Oils Ltd | Caerfyrddin | 01267 ****** |
| J E Jones & Sons | Porthmadog, Gwynedd | 01766 ****** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm a archebwyd (litrau)** | **89,800** |
| **Cyfanswm gwerth** | **£50,155** |
| **Cyfanswm yr arbedion** | **£5,260** |

Pris Brent Crude -
**http://oil-price.net/index.php?lang=en**

| 500 ltr | Swmp | | Dyddiad yr archeb | | Dyddiad yr archeb | 17/06/14 | Dyddiad yr archeb | 09/09/14 | Dyddiad yr archeb | 20/10/14 | Dyddiad yr archeb | 12/11/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **9000** | Maint yr archeb | **1300** | Maint yr archeb | **800** | Maint yr archeb | **2300** | Maint yr archeb | **8500** | Maint yr archeb | **14000** |
| | | W. Hall | Cyflenwr | W. Hall | Cyflenwr | ACME | Cyflenwr | ACME | Cyflenwr | W. Hall | Cyflenwr | ACME |
| £0.530 | £0.510 | **£0.61** | Pris safonol | **£0.62** | Pris safonol | **£0.55** | Pris safonol | **£0.56** | Pris safonol | **£0.51** | Pris safonol | **£0.51** |
| £0.510 | £0.480 | £0.64 | Gan gynnwys TAW 5% | £0.65 | Gan gynnwys TAW 5% | £0.57 | Gan gynnwys TAW 5% | £0.58 | Gan gynnwys TAW 5% | £0.54 | Gan gynnwys TAW 5% | £0.54 |
| | | **£0.56** | Pris gostyngol | **£0.54** | Pris gostyngol | **£0.51** | Pris gostyngol | **£0.50** | Pris gostyngol | **£0.46** | Pris gostyngol | **£0.47** |
| £0.510 | £0.480 | £0.59 | Gan gynnwys TAW 5% | £0.57 | Gan gynnwys TAW 5% | £0.54 | Gan gynnwys TAW 5% | £0.53 | Gan gynnwys TAW 5% | £0.48 | Gan gynnwys TAW 5% | £0.49 |
| £0.490 | £0.470 | **£52.50** | Arbedion/1000ltr | **£84.00** | Arbedion/1000ltr | **£37.50** | Arbedion/1000ltr | **£55.65** | Arbedion/1000ltr | **£52.50** | Arbedion/1000ltr | **£42.00** |
| | | £472.50 | Cyfanswm arbedion ar yr archeb | £109.20 | Cyfanswm arbedion ar yr archeb | £30.16 | Cyfanswm arbedion ar yr archeb | £128.00 | Cyfanswm arbedion ar yr archeb | £446.25 | Cyfanswm arbedion ar yr archeb | £58.00 |

# Atodiad 3.
## Pecynnau cymorth eraill

**Dyma restr o becynnau cymorth eraill, taflenni cyngor a dogfennau eraill rydym wedi dod ar eu traws yn ystod ein gwaith gyda syndicetiau tanwydd.**

- **ACRE, Ffederasiwn y Cyflenwyr Petrolewm a Chyngor ar Bopeth, 2011,** *Best Practice for Oil Buying Groups,* **https://www.citizensadvice.org.uk/pdf-cam-oc-buyingguide-2011.pdf**
- **Causeway Coast and Glens and Mid and East Antrim Cluster, Mawrth 2013,** *Toolkit for Community Bulk-Buying Oil Clubs,* **http://www.nihe.gov.uk/community_oil_buying_scheme_toolkit_causeway_coast.pdf**
- **Cyngor ar Bopeth,** *Top Tips for Oil Club Co-ordinators,* **https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/campaigns/current_campaigns/recent-campaigns/oilclubs/oil-clubs-information/**
- **Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, 2012,** *Guide for Community Buying Groups,* **https://www.gov.uk/government/publications/guide-for-community-buying-groups**
- **Ffederasiwn y Cyflenwyr Petrolewm (FPS Cyf) a Chymdeithas Dechnegol Llosgi Olew (OFTEC),** *Guidance for Communities on Local Oil Buying Groups,* **http://www.oilsave.org.uk/oilwise** (dilynwch y ddolen â buying group guidance)
- **Cyngor ar Bopeth Gorllewin Berkshire,** *Ashampstead oil club, Lanies oil club, Leckhampstead oil club, Case studies of working local oil groups,* **https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/campaigns/current_campaigns/recent-campaigns/oilclubs/oil-clubs-resources/**
- **Gweithredu Gwledig Swydd Efrog,** *Oil-buying co-operatives Toolkit,* **http://www.ruralyorkshire.org.uk/webfm_send/397**





Ymlaen Ceredigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government